# CBAC Sylfaen Lefel Mynediad / Lefel 1 Y Celfyddydau Mynegiannol

## Manyleb Ddrafft

I'w addysgu o fis Medi 2027
Dyfarniad Cyntaf 2029

| |
|---|
| Manyleb DRAFFT yw hon. Felly, dylai canolfannau ddisgwyl rhai newidiadau yn y fersiwn derfynol a gyhoeddir ym mis Medi 2026. |

DRAFFT

Mae'r fanyleb hon yn bodloni gofynion y dogfennau rheoleiddio canlynol a gyhoeddwyd gan Cymwysterau Cymru:

- Meini Prawf Cymeradwyo Cymwysterau Sylfaen Cyffredinol sy'n nodi'r gofynion ar gyfer unrhyw gymhwyster newydd a gymeradwywyd i'w addysgu am y tro cyntaf o fis Medi 2025 a thu hwnt.
- Amodau Cydnabod Safonol sy'n cynnwys y rheolau y mae'n rhaid i bob corff dyfarnu a'u cymwysterau eu bodloni wrth gynnig cymwysterau i ddysgwyr yng Nghymru.

DRAFT

**Hawlfraint**
© WJEC CBAC Limited 2026.

## Cynnwys

CRYNODEB O'R ASESU ..... 5
1 CYFLWYNIAD ..... 6
1.1 Nodau ..... 6
1.2 Cwricwlwm i Gymru ..... 6
1.3 Dysgu Blaenorol a Dilyniant ..... 7
1.4 Oriau Dysgu dan Arweiniad a Chyfanswm Oriau Cymhwyso ..... 7
1.5 Y defnydd o iaith ..... 7
1.6 Cydraddoldeb a mynediad teg ..... 8
2 CYNNWYS Y PWNC ..... 9
2.1 Sut i ddarllen yr ymhelaethiad ..... 9
Uned 1 ..... 10
Uned 2 ..... 12
Uned 3 ..... 14
Cyfleoedd i integreiddio profiadau dysgu ..... 16
3 ASESU ..... 17
3.1 Amcanion Asesu a Phwysoli ..... 17
3.2 Trosolwg o'r Asesu ..... 17
3.3 Rheoli'r asesiadau ..... 18
3.4 Ailgyflwyno asesiadau di-arholiad wedi'u hasesu'n fewnol ..... 20
4 CAMYMDDWYN ..... 21
5 GWYBODAETH DECHNEGOL ..... 22
5.1 Cofrestru ..... 22
5.2 Cofrestru ar gyfer y cymhwyster ..... 22
5.3 Graddio, dyfarnu ac adrodd yn ôl ..... 22
5.4 Ailsefyll asesiadau ..... 23
5.5 Ailwneud y cymhwyster ..... 24
Atodiad A: Enghreifftiau o arddulliau/genres a thechnegau sylfaenol ar gyfer pob ffurf gelf ..... 25
Atodiad B: Cyfleoedd i ymgorffori elfennau o'r Cwricwlwm i Gymru ..... 28

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

## Grymuso dysgwyr, cefnogi athrawon

Fel corff dyfarnu mwyaf Cymru, mae gennym fwy na 75 mlynedd o brofiad yn cyflwyno cymwysterau o safon y gellir ymddiried ynddynt ac yn cefnogi dysgwyr, addysgwyr, a chyflogwyr ledled Cymru.

Darparwn amrywiaeth eang o gymwysterau dwyieithog sy'n hygyrch, yn ennyn diddordeb, ac wedi'u bwriadu i fodloni anghenion dysgwyr heddiw.

I ategu ein cymwysterau mae gennym dimau pynciol arbenigol, adnoddau o safon, a chefnogaeth arbenigol, ymatebol. Y cydweithio agos ag ysgolion, colegau, consortia rhanbarthol, arbenigwyr sector a Cymwysterau Cymru sy’n llywio ac yn llunio ein gwaith.

Ni yw'r unig gorff dyfarnu sy'n cynnig cymwysterau ym mhob cyfres o'r hyn sydd ar gael fel Cymwysterau Cenedlaethol 14-16. Rydym yn falch iawn felly o fod â rôl allweddol yn cefnogi dyhead Llywodraeth Cymru i wneud addysg yng Nghymru yn rhywbeth y gall y genedl fod yn falch ohono. Mae'n ymrwymiad gennym i helpu pob dysgwr i gyflawni ei botensial ac i symud ymlaen yn hyderus.

## Sylfaen gref i lwyddo yn y dyfodol

Lluniwyd ein Cymwysterau Sylfaen Cenedlaethol i ysbrydoli a chefnogi dysgwyr, a chynnig rhaglen dros ddwy flynedd sy'n hygyrch ac sy'n ennyn diddordeb. Gyda’r cymwysterau hyn, bydd dysgwyr yn magu hyder, yn datblygu gwybodaeth hanfodol, yn dod i ddeall sgiliau, ac yn mwynhau llwyddiant ystyrlon.

Mae’r strwythur unedol sydd iddynt yn un o nodweddion allweddol ein Cymwysterau Sylfaen Cyffredinol. Dyma sy’n caniatáu i’r dysgwyr gwblhau rhai asesiadau ym Mlwyddyn 10 ac asesiadau eraill ym Mlwyddyn 11. Gyda’r hyblygrwydd hwn, mae’n bosibl gwneud cynnydd gan bwyll, mae llai o bwysau asesu, ac mae’r dysgwyr yn cael y cyfle i ddangos yr hyn maent yn ei gyflawni drwy gydol y cwrs.

Oherwydd eu natur gydadferol, mae ein Cymwysterau Sylfaen Cyffredinol yn cydnabod y cryfderau sydd gan ddysgwyr ar draws y gwahanol unedau. Nid oes angen yr un perfformiad ym mhob maes, ac mae hynny felly'n golygu bod modd cyflawni'n uchel mewn un uned a hynny wedyn yn gwneud iawn am berfformiad is mewn uned arall. Mae'r profiad asesu felly'n un cynhwysol a chefnogol ar y sail hon.

Mae ein Cymwysterau Sylfaen Cyffredinol yn adeiladu ar y ddealltwriaeth o gysyniadau a ddatblygodd dysgwyr yn rhan o'u dysgu rhwng 3 ac 14 oed wrth ddilyn y Cwricwlwm i Gymru. Mae hyn yn cysylltu â'r pedwar diben a'r egwyddorion cynnydd, ac yn cefnogi hynny. Er eu bod yn wahanol iawn i'r TGAU, cawsant eu llunio gennym i gynnig sylfaen eang ar gyfer symud ymlaen i'r TGAU cysylltiedig, gan ganolbwyntio ar ddealltwriaeth a sgiliau tebyg.

P'un a yw dysgwyr yn parhau i astudio'r pwnc ai peidio, byddant yn ennill gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau gwerthfawr, gan deimlo eu bod wedi cyflawni mewn ffordd sy'n eu paratoi ar gyfer bywyd, dysgu a gwaith.

© WJEC CBAC Ltd. 2026

# CBAC Sylfaen Lefel Mynediad / Lefel 1 Y Celfyddydau Mynegiannol

# CRYNODEB O'R ASESU

**Uned 1: Darganfod gwaith eraill**
Tasgau adfyfyriol
25% o'r cymhwyster
Bydd dysgwyr yn adfyfyrio ar y gwaith o'u dewis ac yn ei werthuso
Wedi'u gosod a'u marcio gan CBAC

**25 marc**

Bydd yr uned hon yn cael ei hasesu drwy dair tasg. Bydd dysgwyr yn gwneud y canlynol:

- archwilio dwy o ffurfiau'r celfyddydau mynegiannol a dewis un darn o bob un o'r ffurfiau
- trafod y dewisiadau artistig a wnaed ym mhob darn o waith
- gwerthuso ac adfyfyrio ar y dewisiadau creadigol

**Uned 2: Datblygu fy syniadau fy hun**
Asesiad ymarferol a Log Adfyfyriol
25% o'r cymhwyster
Creu a datblygu darn o waith a log adfyfyriol
Wedi'u gosod gan CBAC, eu marcio gan y ganolfan a'u cymedroli gan CBAC

**25 marc**

Bydd yr uned hon yn cael ei hasesu drwy greu a datblygu darn gwreiddiol a chynhyrchu log adfyfyriol.

**Uned 3: Arddangos fy sgiliau**
Asesiad ymarferol
50% o'r cymhwyster
Cynhyrchu/perfformio dau ddarn
Wedi'i osod gan CBAC, ei farcio gan y ganolfan a'i gymedroli gan CBAC

**40 marc**

Bydd yr uned hon yn cael ei hasesu drwy asesiad ymarferol. Rhaid i ddysgwyr gynhyrchu neu berfformio dau ddarn neu gynnyrch. Gall ffurf gelf y ddau ddarn neu gynnyrch fod yr un fath neu'n ffurfiau gwahanol.

Cymhwyster unedol yw hwn.

Nid yw'r cymhwyster yn cynnwys haenau.
Nid yw trefn yr unedau yn awgrymu trefn addysgu benodol.
Bydd Uned 1 ac Uned 2 ar gael o 2028. Bydd Uned 3 ar gael o 2029.

Caiff y cymhwyster ei ddyfarnu am y tro cyntaf yn 2029.

Rhif Cymeradwyo'r Cymhwyster: Cliciwch yma i roi'r rhif achredu.

© WJEC CBAC Ltd 2026

# CBAC Sylfaen Lefel Mynediad / Lefel 1 Y Celfyddydau Mynegiannol

## 1 CYFLWYNIAD

### 1.1 Nodau

Mae'r cymhwyster yn cefnogi dysgwyr i wneud y canlynol:
- archwilio'r celfyddydau mynegiannol sydd wedi cael eu creu a'u perfformio gan bobl eraill a datblygu eu doniau creadigol a'u sgiliau artistig a pherfformio eu hunain
- datblygu dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o ddiwylliannau a chymdeithasau yng Nghymru a'r byd, mewn perthynas â'r celfyddydau mynegiannol
- datblygu sgiliau creadigol i gynllunio, i ddyfeisio ac i ddylunio perfformiadau, delweddau ac arteffactau effeithiol
- gwneud cysylltiadau o fewn a rhwng meysydd y celfyddydau mynegiannol
- adfyfyrio ar eu gwaith eu hunain a'i werthuso.

Mae Meini Prawf Cymeradwyo Cymwysterau Cymru yn nodi'r nodau hyn.

### 1.2 Cwricwlwm i Gymru

Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru yw sail y cymhwyster CBAC Sylfaen Lefel Mynediad/Lefel 1 Y Celfyddydau Mynegiannol hwn. Cafodd ei lunio er mwyn sicrhau y gall dysgwyr barhau i wneud cynnydd tuag at y pedwar diben gan astudio ar gyfer y cymhwyster hwn ar yr un pryd. Yn ganolog i hyn mae'r egwyddorion cynnydd, yn ogystal â'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig a'r sgiliau a chysyniadau penodol a amlinellir yn rhan 'Cynllunio eich Cwricwlwm' Maes Dysgu a Phrofiad y Celfyddydau Mynegiannol.

Wrth ddatblygu'r cymhwyster hwn, ystyriwyd lle byddai cyfleoedd i ymgorffori'r themâu trawsgwricwlaidd a chyfleoedd yn ogystal i feithrin sgiliau cyfannol a sgiliau trawsgwricwlaidd. Mae mapio syml i'w weld yn Atodiad B a bydd y Canllawiau Addysgu yn cynnwys gwybodaeth i gefnogi athrawon.

Ystyriwyd hefyd lle gall y cymhwyster greu cyfleoedd i integreiddio'r profiadau dysgu a nodwyd ar dudalen 16; bydd gwybodaeth bellach i'w chael yn y Canllawiau Addysgu o ran integreiddio'r profiadau dysgu hyn wrth gyflwyno'r cymhwyster.

Mae cymhwyster CBAC Sylfaen Lefel Mynediad/Lefel 1 Y Celfyddydau Mynegiannol yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru drwy:

- gefnogi'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig:
  - gall dysgwyr ddod i ddeall y ffordd mae'r celfyddydau mynegiannol yn cyfathrebu drwy ddulliau gweledol, corfforol, geiriol, cerddorol a thechnolegol
  - gall dysgwyr feithrin eu dychymyg a thynnu ar eu profiadau, eu sgiliau a'u doniau eu hunain
  - gall dysgwyr archwilio Cymru, ei thraddodiadau, ei hanes a'i diwylliant unigryw ac amrywiol
  - gall dysgwyr archwilio eu hetifeddiaeth ddiwylliannol eu hunain ac etifeddiaeth ddiwylliannol pobl eraill

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd. 2026

  - gellir datblygu gwydnwch dysgwyr wrth iddynt gael eu hannog i adnabod sut gallant wella eu gwaith.
- cefnogi'r egwyddorion cynnydd drwy:
  - annog dysgwyr i werthuso eu gwaith eu hunain
  - galluogi dysgwyr i fagu mwy o hyder drwy gael cyfleoedd i archwilio, profi, dehongli, creu ac ymateb drwy gyfrwng y celfyddydau mynegiannol
  - galluogi dysgwyr i ddod yn fwyfwy ymwybodol o ddisgyblaethau'r celfyddydau mynegiannol a'u nodweddion allweddol.

## 1.3 Dysgu Blaenorol a Dilyniant

Er nad yw dysgu blaenorol yn un o'r gofynion penodol, lluniwyd y cymhwyster yn bennaf i ddysgwyr rhwng 14 ac 16 oed. Mae'n adeiladu felly ar y ddealltwriaeth gysyniadol a ddatblygwyd gan ddysgwyr drwy'r hyn a ddysgwyd ganddynt rhwng 3 ac 14 oed.

Mae'r cymhwyster yn galluogi dysgwyr i ddatblygu sylfaen gref o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth sy'n cefnogi dilyniant i astudio ôl-16 ac sy'n paratoi dysgwyr ar gyfer bywyd, dysgu a gwaith. Mae'r cymhwyster yn darparu sail eang ar gyfer dilyniant i gymwysterau TGAU ym maes y Celfyddydau Mynegiannol a chymwysterau cysylltiedig eraill. Yn ogystal, mae'r fanyleb yn darparu cwrs astudio sy'n gydlynol, yn foddhaol ac yn werth chweil i'r dysgwyr hynny nad ydynt yn symud ymlaen i astudio ymhellach yn y pwnc hwn.

## 1.4 Oriau Dysgu dan Arweiniad a Chyfanswm Oriau Cymhwyso

Lluniwyd CBAC Sylfaen Lefel Mynediad/Lefel 1 Y Celfyddydau Mynegiannol i'w gyflwyno dros gyfnod o 120 o oriau dysgu dan arweiniad (ODA). Cafodd y cymhwyster ei lunio'n bennaf fel rhaglen 2 flynedd i ddysgwyr ym mlynyddoedd 10 ac 11. Mae gan ganolfannau hyblygrwydd o ran sut maent yn strwythuro ac yn cyflwyno eu cyrsiau o fewn cyfanswm yr ODA ar gyfer y cymhwyster. Mae swm y cynnwys ym mhob uned a'i bwysoliad o fewn y cymhwyster yn rhoi syniad o ganran yr ODA y rhagwelir y bydd ei hangen ar gyfer pob uned.

Y cyfanswm amser cymhwyso (CAC) yw cyfanswm yr amser, mewn oriau, y disgwylir i ddysgwr ei dreulio er mwyn ennill cymhwyster. Mae'n cynnwys yr ODA ac unrhyw amser ychwanegol i baratoi, astudio a chyflawni rhai gweithgareddau asesu ffurfiannol. Gan fod Cymwysterau Sylfaen Cyffredinol wedi'u cynllunio'n bennaf ar gyfer dysgwyr lefel mynediad cyn-16, bwriedir i'r holl ddysgu ac asesu o fewn y cymhwyster fod dan arweiniad. Yn unol â hynny, cyfanswm amser cymhwyso'r cymhwyster hwn yw 120 awr.

## 1.5 Y defnydd o iaith

Wrth i'n dealltwriaeth o amrywiaeth, tegwch a chynhwysiant ddatblygu, mae'n rhaid i'n hiaith ddatblygu hefyd. Drwy ddiweddaru terminoleg, rydym yn adlewyrchu hunaniaethau unigol yn well ac yn meithrin parch a chywirdeb. Dylai'r iaith a ddefnyddir fod mor benodol â phosibl. Mae'n hanfodol bod yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd a bod modd addasu gan fod iaith gynhwysol yn hybu urddas a thegwch. Gan gydnabod y bydd iaith yn parhau i ddatblygu, byddwn yn parhau i fod yn agored i ddiwygiadau pellach i sicrhau y cynrychiolir ac y cefnogir pob unigolyn yn gywir. Bydd CBAC yn rhoi gwybod i ganolfannau am unrhyw ddiwygiadau a bydd y fersiwn diweddaraf o'r fanyleb ar y wefan bob amser.

© WJEC CBAC Ltd 2026

DRAFT

## 1.6 Cydraddoldeb a mynediad teg

Mae'r fanyleb hon wedi'i chynllunio i fod yn hygyrch i bob dysgwr, waeth beth fo'u rhywedd, ethnigrwydd, crefydd, diwylliant, neu unrhyw nodwedd warchodedig arall fel y'i diffinnir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r nodweddion gwarchodedig hyn yn cynnwys oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw, a chyfeiriadedd rhywiol. Mae egwyddorion dylunio cynhwysol wedi'u cymhwyso drwy gydol y cymhwyster, gan gynnwys defnyddio iaith glir a diduedd ac enghreifftiau amrywiol. Mae pob ymdrech wedi'i wneud i osgoi, lle y bo'n bosibl, nodweddion a allai greu rhwystrau i fynediad neu gyflawniad na ellir eu cyfiawnhau.

Mae trefniadau mynediad ac addasiadau rhesymol ar gael i ddysgwyr cymwys er mwyn sicrhau y gallant gymryd rhan lawn mewn asesiadau a dangos eu gwybodaeth a'u sgiliau. Nid yw'r addasiadau hyn yn newid gofynion bwriadedig yr asesiad ond maent yn cefnogi mynediad teg. Mae canllawiau ar drefniadau mynediad ac addasiadau rhesymol i'w gweld yn nogfen y Cyd-gyngor Cymwysterau (CGC) *Trefniadau Mynediad, Addasiadau Rhesymol*: *Cymwysterau Cyffredinol a Galwedigaethol*, sydd ar gael yn www.jcq.org.uk.

Mae'r cymhwyster hwn yn cadw at yr egwyddorion a amlinellir yng nghanllawiau'r CGC. O ganlyniad i ddylunio cynhwysol a darpariaeth ar gyfer addasiadau rhesymol, prin iawn fydd nifer y dysgwyr a fydd yn dod ar draws rhwystr llwyr rhag unrhyw ran o'r broses asesu.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd. 2026

# 2 CYNNWYS Y PWNC

Mae cymhwyster CBAC Sylfaen Lefel Mynediad/Lefel 1 Y Celfyddydau Mynegiannol yn cynnwys y ffurfiau celf canlynol:

- Celf a Dylunio
- Drama
- Dawns
- Cerddoriaeth
- Ffilm a Chyfryngau Digidol.

## 2.1 Sut i ddarllen yr ymhelaethiad

Mae'r ymhelaethiad sydd i'w weld yn y golofn ar y dde, dan y teitl 'Gwybodaeth Bellach' yn defnyddio'r pedwar bonyn canlynol:

- Mae 'Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o' yn cael ei ddefnyddio pan nad oes angen i ddysgwyr ddeall pob agwedd ar y cynnwys dan sylw yn fanwl. Dylai athrawon gyfeirio at y dogfennau Canllawiau Addysgu i gael arweiniad pellach ynghylch y dyfnder a'r ehangder sy'n ofynnol wrth addysgu'r cynnwys hwn.
- Mae 'Dylai dysgwyr wybod' yn cael ei ddefnyddio pan mae gofyn i ddysgwyr ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol.
- Mae 'Dylai dysgwyr ddeall' yn cael ei ddefnyddio pan mae gofyn i ddysgwyr ddangos mwy o ddyfnder o ran gwybodaeth a dealltwriaeth, cymhwyso gwybodaeth i gyd-destunau cyfarwydd neu anghyfarwydd a gallu dadansoddi a gwerthuso gwybodaeth at bwrpas penodol.
- Mae 'Dylai dysgwyr allu' yn cael ei ddefnyddio pan fo angen i ddysgwyr gymhwyso'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth at sefyllfa ymarferol neu ddangos sgiliau a thechnegau ymarferol yn cael eu cymhwyso.
- Mae 'Mae'n ofynnol i ddysgwyr' yn golygu bod angen dangos gofynion unedau unigol.

Mae 'gan gynnwys' yn golygu bod rhaid addysgu'r cynnwys dan sylw ac y gallai gael ei asesu.

Mae defnyddio'r geiriau 'er enghraifft' neu 'megis' yn golygu mai arweiniad yn unig yw'r cynnwys dan sylw, a gellid dewis enghreifftiau eraill.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

# Uned 1

**Darganfod gwaith eraill**

Tasgau adfyfyriol
25% o'r cymhwyster
25 marc
Wedi'u gosod gan CBAC a'u marcio gan CBAC

**Trosolwg o'r uned**

Pwrpas yr uned hon yw:
- archwilio amrywiaeth o ffurfiau'r celfyddydau mynegiannol
- adfyfyrio ar waith eraill a'i werthuso.

Bydd yr uned hon yn canolbwyntio ar:
- archwilio – bydd dysgwyr yn cael cyfle i archwilio amrywiaeth o waith a grëwyd gan eraill
- ymateb ac adfyfyrio – bydd dysgwyr yn gallu gwerthuso gwaith eraill.

Bydd dysgwyr yn archwilio amrywiaeth o weithiau celfyddydau mynegiannol o Gymru a'r byd ehangach. Drwy ymgysylltu â gwaith eraill ar draws dwy ffurf gelf wahanol, bydd dysgwyr yn dadansoddi ac yn adfyfyrio ar y penderfyniadau creadigol a ddefnyddir i gyfleu ystyr a naws.

**Meysydd cynnwys**

<table>
<tr><th colspan="2">1.1 Darganfod gwaith eraill</th></tr>
<tr><td colspan="2">Yn yr uned hon, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r canlynol:<br>1.1.1 Archwilio'r Celfyddydau Mynegiannol<br>1.1.2 Y defnydd o dechnegau a dewisiadau artistig mewn gweithiau a ddewiswyd<br>1.1.3 Gwerthuso ac adfyfyrio ar y gweithiau a ddewiswyd</td></tr>
<tr><td>Cynnwys</td><td>Gwybodaeth bellach</td></tr>
<tr><td>1.1.1<br>Archwilio'r Celfyddydau Mynegiannol</td><td>Dylai dysgwyr wybod am wahanol ffurfiau'r celfyddydau mynegiannol, gan gynnwys:<br>• Celf a Dylunio<br>• Drama<br>• Dawns<br>• Cerddoriaeth<br>• Ffilm a Chyfryngau Digidol.<br><br>Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o'r hyn y mae pob un o ffurfiau'r celfyddydau mynegiannol yn ei olygu, er enghraifft:<br>• Celf a Dylunio: creu gwaith gweledol at bwrpasau ymarferol neu fynegiant personol. Mae'n cynnwys lluniadu, paentio, cerflunio, ffotograffiaeth, crefftau, a phrosesau dylunio a ddefnyddir i ddatblygu syniadau creadigol a chyfathrebu'n weledol.<br>• Drama: adrodd straeon drwy berfformiad. Mae'n defnyddio llais, symudiad, cymeriad, a llwyfannu i archwilio emosiynau, syniadau a sefyllfaoedd. Mae hyn yn cynnwys perfformio a dylunio i greu ystyr a chyfathrebu â chynulleidfa.</td></tr>
</table>

© WJEC CBAC Ltd. 2026

| | |
|---|---|
| | • Dawns: mynegi syniadau ac emosiynau drwy symud y corff. Mae'n defnyddio gweithredoedd, dynameg, gofod a pherthnasoedd i greu ystyr a chyfathrebu â chynulleidfa.<br>• Cerddoriaeth: creu a threfnu seiniau. Mae'n defnyddio elfennau megis rhythm, alaw, harmoni a dynameg i fynegi teimladau, adrodd straeon neu gyfleu syniadau.<br>• Ffilm a Chyfryngau Digidol: creu a golygu cynnwys gan ddefnyddio technoleg ddigidol, megis fideo, sain, graffeg, animeiddio, a ffotograffiaeth. Mae'r maes hwn yn canolbwyntio ar adrodd straeon, creu byrddau stori, cyfathrebu gweledol, a sgiliau cynhyrchu technegol.<br><br>Dylai dysgwyr wybod arddull/genre gwahanol weithiau ar draws o leiaf ddwy ffurf gelf. Dylai'r gweithiau hyn gynnwys amrywiaeth o wahanol arddulliau/genres a bod yn gysylltiedig â gwahanol ddiwylliannau a chymdeithasau o Gymru a'r byd.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall technegau sylfaenol y ffurfiau celf a ddewiswyd.<br><br>*D.S. Gellir dod o hyd i enghreifftiau o arddulliau/genres a thechnegau sylfaenol y ffurfiau celf yn Atodiad A.* |
| 1.1.2<br>Y defnydd o dechnegau a dewisiadau artistig mewn gweithiau a ddewiswyd | Dylai dysgwyr wybod arddull/genre y gwaith a ddewiswyd ganddynt.<br><br>Dylai dysgwyr allu nodi'r technegau sylfaenol a ddefnyddir yn y gwaith a ddewiswyd ganddynt.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall pam mae crewyr yn defnyddio technegau sylfaenol o fewn y ffurf gelf i gyfleu ystyr a/neu naws. |
| 1.1.3<br>Gwerthuso ac adfyfyrio ar y gweithiau a ddewiswyd | Dylai dysgwyr allu gwerthuso ac adfyfyrio ar y dewisiadau creadigol o fewn y gwaith a ddewiswyd ganddynt, gan gynnwys:<br>• beth oedd naws y darn?<br>• beth maent yn ei hoffi?<br>• beth nad ydynt yn ei hoffi?<br>• sut mae'n gwneud iddynt deimlo?<br><br>Dylai dysgwyr allu cyfiawnhau eu barn gan ddefnyddio tystiolaeth o'r gwaith celfyddydau mynegiannol.<br><br>Dylai dysgwyr allu defnyddio geirfa benodol i'r pwnc wrth adfyfyrio ar ddewisiadau creadigol. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

# Uned 2

**Datblygu fy syniadau fy hun**

Asesiad ymarferol a Log Adfyfyriol
25% o'r cymhwyster
25 marc
Wedi'u gosod gan CBAC, eu marcio gan y ganolfan a'u cymedroli gan CBAC

**Trosolwg o'r uned**

Pwrpas yr uned hon yw:
- datblygu sgiliau creadigol dysgwyr
- datblygu gallu dysgwyr i ymateb i ysgogiad
- datblygu gallu dysgwyr i adfyfyrio ar effeithiolrwydd eu dewisiadau artistig eu hunain.

Bydd yr uned hon yn canolbwyntio ar:
- **archwilio** – bydd dysgwyr yn cael cyfle i archwilio amrywiaeth o ffurfiau'r celfyddydau mynegiannol
- **creu** – bydd dysgwyr yn datblygu eu gwaith gwreiddiol eu hunain mewn ymateb i friff o'u dewis
- **adfyfyrio** – bydd dysgwyr yn gallu gwerthuso eu syniadau creadigol eu hunain.

Gan ddefnyddio ysgogiadau a osodir gan CBAC fel ysbrydoliaeth, bydd dysgwyr yn archwilio ffurfiau'r celfyddydau mynegiannol i ddatblygu a chreu eu gwaith eu hunain. Bydd dysgwyr yn cynhyrchu Log Adfyfyriol lle byddant yn ystyried eu hymateb i'r ysgogiad, eu defnydd o dechnegau sylfaenol, a pha mor effeithiol y mae eu bwriad artistig yn cael ei gyfleu.

**Meysydd cynnwys**

| **2.1 Datblygu fy syniadau fy hun** | |
|---|---|
| Yn yr uned hon, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r canlynol:<br>2.1.1 Archwilio genres, arddulliau a thechnegau<br>2.1.2 Creu a datblygu eu gwaith eu hunain<br>2.1.3 Adfyfyrio ar eu gwaith eu hunain | |
| Cynnwys | Gwybodaeth bellach |
| 2.1.1<br>Archwilio genres, arddulliau a thechnegau | Dylai dysgwyr (ar ôl archwilio amrywiaeth o genres, arddulliau a thechnegau sylfaenol yn y ffurf gelf o'u dewis) allu cynhyrchu syniadau i wireddu bwriadau artistig.<br><br>Mae'n ofynnol i ddysgwyr ddewis un ysgogiad o'r amrywiaeth o ysgogiadau a osodir gan CBAC. Rhaid i ffurf gelf yr ysgogiad a ddewiswyd fod yn wahanol i ffurf eu darn gwreiddiol.<br><br>*D.S. Gellir dod o hyd i enghreifftiau o arddulliau/genres a thechnegau sylfaenol y ffurfiau celf yn Atodiad A.* |
| 2.1.2<br>Creu a datblygu eu gwaith eu hunain | Dylai dysgwyr allu creu a datblygu darn gwreiddiol mewn ymateb i'r ysgogiad o'u dewis. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd. 2026

| | |
|---|---|
| | Dylai dysgwyr allu cymhwyso technegau sylfaenol i gyfleu eu bwriadau artistig ac mewn ymateb i'r ysgogiad. |
| 2.1.3<br>Adfyfyrio ar eu gwaith eu hunain | Dylai dysgwyr allu adfyfyrio ar eu gwaith eu hunain a'i werthuso, gan gynnwys:<br>• ymateb i'r ysgogiad, er enghraifft:<br>  ◦ pa mor greadigol oedd eu syniadau?<br>  ◦ beth roeddent yn gobeithio ei gyflawni?<br>• y defnydd o dechnegau sylfaenol ar gyfer eu ffurf gelf, er enghraifft:<br>  ◦ a oeddent yn briodol?<br>  ◦ pa mor dda gwnaethant eu cymhwyso?<br>• cyfleu bwriadau artistig, er enghraifft:<br>  ◦ a wnaethant gyflawni'r hyn yr oeddent yn gobeithio ei gyflawni?<br>  ◦ beth aeth yn dda?<br>  ◦ beth gallent ei wella? |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

# Uned 3

**Arddangos fy sgiliau**

Asesiad ymarferol
25% o'r cymhwyster
40 marc
Wedi'i osod gan CBAC, ei farcio gan y ganolfan a'i gymedroli gan CBAC

**Trosolwg o'r uned**

Pwrpas yr uned hon yw:
- darparu cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu eu sgiliau ymarferol yn unigol a/neu fel rhan o grŵp
- darparu cyfleoedd i ddysgwyr arddangos eu sgiliau ymarferol mewn cynnyrch, darn neu berfformiad terfynol
- darparu cyfle i ddysgwyr ddatblygu sgiliau personol o ran gwydnwch, penderfynoldeb a hyder.

Bydd yr uned hon yn canolbwyntio ar:
- **archwilio** – bydd dysgwyr yn cael cyfle i archwilio amrywiaeth o ffurfiau'r celfyddydau mynegiannol
- **creu** – bydd dysgwyr yn cael cyfle i ddatblygu eu sgiliau ymarferol/perfformio.

Bydd dysgwyr yn archwilio gwaith eraill i lywio ac arddangos eu sgiliau ymarferol mewn un neu fwy o ffurfiau'r celfyddydau mynegiannol o'u dewis.

**Meysydd cynnwys**

| **3.1 Arddangos fy sgiliau** | |
|---|---|
| Yn yr uned hon, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r canlynol:<br>3.1.1 Archwilio a dewis gwaith sydd eisoes yn bodoli<br>3.1.2 Cymhwyso sgiliau ymarferol | |
| Cynnwys | Gwybodaeth bellach |
| 3.1.1<br>Archwilio a dewis gwaith sydd eisoes yn bodoli | Dylai dysgwyr allu archwilio darnau o waith sydd eisoes yn bodoli ar draws amrywiaeth o ffurfiau'r celfyddydau mynegiannol.<br><br>Ar ôl archwilio, dylai dysgwyr ddeall y sgiliau a'r technegau a ddefnyddir o amrywiaeth o wahanol arddulliau/genres ar draws y ffurf gelf/ffurfiau celf o'u dewis.<br><br>Dylai dysgwyr allu nodi'r bwriadau artistig yn y gwaith o'u dewis.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall y sgiliau a'r technegau sylfaenol a ddefnyddir yn y gwaith o'u dewis.<br><br>*D.S. Gellir dod o hyd i enghreifftiau o arddulliau/genres a thechnegau sylfaenol y ffurfiau celf yn Atodiad A.* |

© WJEC CBAC Ltd. 2026

| | |
|---|---|
| 3.1.2<br>Cymhwyso sgiliau ymarferol | Dylai dysgwyr allu datblygu a chymhwyso eu sgiliau i berfformio/creu **dau** ddarn o waith o'r un ffurf **neu** o wahanol ffurfiau'r celfyddydau mynegiannol.<br>Dylai dysgwyr allu cymhwyso sgiliau a thechnegau sy'n briodol i'r ffurf celfyddydau mynegiannol a'r gwaith o'u dewis.<br><br>Dylai dysgwyr allu cyfleu bwriadau artistig y crëwr, er enghraifft:<br>• addysgu<br>• diddanu<br>• ennyn emosiwn<br>• portreadu rhywbeth. |

DRAFFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

## Cyfleoedd i integreiddio profiadau dysgu

Mae cymhwyster CBAC Lefel Mynediad/Lefel 1 Y Celfyddydau Mynegiannol yn creu cyfleoedd i ddatblygu'r profiadau dysgu canlynol (ni chaiff y profiadau eu hasesu'n uniongyrchol):

- cyfleoedd i brofi perfformiad(au) neu weithiau proffesiynol, gweithdai, ymweliadau, naill ai wyneb yn wyneb neu ar y sgrin
- datblygu hyder wrth roi a derbyn adborth, hyrwyddo meddwl annibynnol, gwreiddioldeb a gwydnwch creadigol
- cyfleoedd i ymchwilio, cymryd risgiau a goresgyn heriau creadigol.

Mae ymhelaethiad pellach ar y cyfleoedd i ddatblygu themâu trawsbynciol, sgiliau trawsgwricwlaidd a sgiliau cyfannol i'w gweld yn Atodiad B. Bydd gwybodaeth bellach i'w chael yn y Canllawiau Addysgu o ran y cyfleoedd y mae'r cymhwyster yn eu cynnig i athrawon/canolfannau integreiddio'r profiadau dysgu hyn wrth gyflwyno'r cymhwyster.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd. 2026

# 3 ASESU

Bydd y Pecyn Asesu yn cynnwys yr holl wybodaeth fanwl sy'n ymwneud ag asesu.

## 3.1 Amcanion Asesu a Phwysoli

Mae amcanion asesu'r fanyleb hon wedi'u nodi isod. Rhaid i ddysgwyr:

**AA1**
Creu a datblygu syniadau

**AA2**
Cymhwyso sgiliau ymarferol

**AA3**
Adfyfyrio ar eu gwaith eu hunain a gwaith eraill a'i werthuso

Mae'r tabl isod yn dangos pwysoliad pob amcan asesu ar gyfer pob uned ac ar gyfer y cymhwyster cyfan.

| | **AA1** | **AA2** | **AA3** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|
| Uned 1 | - | - | 25% | 25% |
| Uned 2 | 20% | - | 5% | 25% |
| Uned 3 | - | 50% | - | 50% |
| Pwysoliad cyffredinol | **20%** | **50%** | **30%** | **100%** |

## 3.2 Trosolwg o'r Asesu

**Uned 1: Darganfod gwaith eraill**

**Mae'n ofynnol i ddysgwyr:**
- ddewis dwy o ffurfiau'r celfyddydau mynegiannol
- dewis un darn o bob un o'r ffurfiau. Mae'n rhaid i **un** fod yn ddarn sydd wedi'i greu yng Nghymru neu wedi'i ysbrydoli gan Gymru ac un y tu allan i Gymru.
- trafod y dewisiadau artistig a wnaed ym mhob darn o waith
- gwerthuso ac adfyfyrio ar y dewisiadau creadigol.

- Nid oes fformat rhagnodedig ar gyfer y gwaith hwn. Dyma rai fformatau posibl:
  - rhyddiaith
  - cyflwyniad sain
  - cyflwyniad clyweledol
  - cyflwyniad *PowerPoint*
  - lluniau, delweddau, sgrinluniau neu fideos wedi'u hanodi
  - blog neu flog fideo.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

- Mae'r asesiad yn cyfrannu at 25% o'r cymhwyster cyffredinol, gydag uchafswm o 6 awr i gwblhau'r gwaith.
- Bydd yr uned yn cael ei marcio allan o 25 marc.
- Bydd yr uned yn cael ei gosod a'i marcio gan CBAC. Bydd yr asesiad cyntaf yn Haf 2028.

**Uned 2: Datblygu fy syniadau fy hun**

**Mae'n ofynnol i ddysgwyr:**
- greu a datblygu darn, perfformiad neu gynnyrch gwreiddiol mewn ymateb i ysgogiad a osodir gan CBAC
- cynhyrchu log adfyfyriol.

- Rhaid i ddysgwyr ddewis ysgogiad o ffurf gelf sy'n wahanol i un eu darn/perfformiad/cynnyrch gwreiddiol.

- Nid oes fformat rhagnodedig ar gyfer y log adfyfyriol. Dyma rai fformatau posibl:
  - rhyddiaith
  - cyflwyniad sain
  - cyflwyniad clyweledol
  - cyflwyniad *PowerPoint*.

- Bydd ysgogiadau wedi'u gosod gan CBAC yn cael eu rhyddhau ar Borth CBAC ym mis Medi y flwyddyn astudio gyntaf; er enghraifft, bydd ysgogiadau ar gael am y tro cyntaf ym mis Medi 2028 i'w cyflwyno yn haf 2030.
- Mae'r asesiad yn cyfrannu at 25% o'r cymhwyster cyffredinol.
- Bydd yr uned yn cael ei marcio allan o 25 marc.
- Bydd yr uned yn cael ei marcio gan y ganolfan, a'i chymedroli gan CBAC. Bydd yr asesiad cyntaf yn Haf 2028.

**Uned 3: Arddangos fy sgiliau**

**Mae'n ofynnol i ddysgwyr:**
- gynhyrchu neu berfformio dau ddarn neu gynnyrch. Gall ffurf gelf y ddau ddarn neu gynnyrch fod yr un fath **neu'n** ffurfiau gwahanol.

- Mae'r asesiad yn cyfrannu at 50% o'r cymhwyster cyffredinol.
- Bydd yr uned yn cael ei marcio allan o 40 marc.
- Bydd yr uned yn cael ei marcio gan y ganolfan, a'i chymedroli gan CBAC. Bydd yr asesiad cyntaf yn Haf 2029.

## 3.3 Rheoli'r asesiadau

Caiff holl unedau'r cymhwyster hwn eu hasesu drwy asesiad di-arholiad. Mae'r asesiadau di-arholiad wedi'u strwythuro ar draws tri chyfnod allweddol: gosod tasgau, gwneud tasgau a marcio tasgau.

Rhaid i bob asesiad di-arholiad gadw at y cyfarwyddiadau sy'n rhan o ddogfen y *CGC Cyfarwyddiadau ar gynnal Asesiadau Di-arholiad (Cymwysterau Galwedigaethol a Thechnegol).* Noder os gwelwch yn dda **nad** yw canllawiau'r CGC ar gyfer Manylebau TAG a TGAU yn berthnasol i'r cymhwyster hwn.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd. 2026

**Gosod Tasgau**

Darperir pecynnau asesu ar gyfer pob uned yn unol â'r trefniadau a nodir yn 3.2.

**Gwneud Tasgau**

Mae cwblhau asesiad di-arholiad yn cael ei lywio gan reolaethau mewn pum maes: amser, adnoddau, goruchwyliaeth, dilysu a chydweithio.

- Amser: Mae pob pecyn asesu yn nodi cyfanswm yr amser sydd ar gael neu bydd yn nodi nad oes cyfyngiad amser; caiff cyfnod amser ei awgrymu ar gyfer pob tasg er y gall ymgeiswyr ddyrannu'r amser hwn ar draws tasgau fel bo'n briodol.
- Adnoddau: Bydd unrhyw ofynion adnoddau penodol yn cael eu hamlinellu yn y pecyn asesu.
- Goruchwylio a dilysu: Fel arfer, dylai dysgwyr gael eu goruchwylio gan athro wrth gwblhau tasgau asesu. Gall athrawon egluro gofynion tasgau ond rhaid iddynt beidio â rhoi adborth ar y dystiolaeth sy'n cael ei chynhyrchu.
- Cydweithio: Caniateir gwaith grŵp dim ond pan fydd hyn wedi'i nodi. Rhaid bod modd nodi'n glir gyfraniadau unigol a rhaid eu hasesu'n annibynnol i sicrhau tegwch. Rhaid i ddysgwyr ddarparu ymatebion unigol, a rhaid bod modd priodoli tystiolaeth i bob dysgwr. Rhaid i daflenni dilysu gael eu llofnodi gan yr athro a'r dysgwr.

**Marcio tasgau ar gyfer asesiadau di-arholiad wedi'u hasesu'n fewnol (Uned 2 ac Uned 3)**

Rhaid i'r holl farcio gael ei wneud gan athro dynodedig sydd ag arbenigedd pwnc priodol, gan ddefnyddio'r meini prawf marcio a ddarperir yn y pecyn asesu. Mae'n rhaid i'r dystiolaeth gyd-fynd â'r disgwyliadau sydd wedi'u nodi yn y pecyn asesu.

Mae'n rhaid anodi tystiolaeth ysgrifenedig er mwyn dangos sut mae'n bodloni'r meini prawf marcio.

Lle bo angen, rhaid dogfennu tystiolaeth berfformio (e.e. dawns) gan ddefnyddio cofnodion arsylwi sy'n cynnwys sylwadau disgrifiadol a chrynodol.

Mae athrawon yn gyfrifol am sicrhau'r canlynol:

- bod dysgwyr ac athrawon yn llofnodi datganiadau sy'n cadarnhau dilysrwydd y gwaith a gyflwynwyd
- bod yr asesiad yn cael ei gynnal yn unol â disgwyliadau'r pecyn asesu a chanllawiau'r CGC
- bod dyfarniadau yn cael eu gwneud yn erbyn y datganiadau band perfformio yn unig
- bod y dystiolaeth yn ddilys, wedi'i hanodi'n glir, ac wedi'i chofnodi'n gywir
- pan ddefnyddir cofnodion arsylwi, eu bod yn cynnwys digon o fanylion i gefnogi penderfyniadau asesu.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

## 3.4 Ailgyflwyno asesiadau di-arholiad wedi'u hasesu'n fewnol

Os mai'r ganolfan sy'n asesu'r gwaith (Uned 2 ac Uned 3), yna gall athrawon ganiatáu un cyfle i ddysgwr wella ei dystiolaeth a'i hailgyflwyno i'w marcio cyn cyflwyno'r marciau terfynol i'w cymedroli. Ailgyflwyno yw enw'r broses hon.

Rhaid trefnu'r asesiad mewnol ddigon ymlaen llaw i allu caniatáu digon o amser i gynnwys y cyfnod ailgyflwyno hwn, lle bo angen gwneud hynny, cyn y cymedroli allanol. Rhaid i ddysgwyr gwblhau'r asesiad cyflawn cyn i'w gwaith gael ei farcio yn y lle cyntaf, a chyn awdurdodi unrhyw ailgyflwyno sydd ei angen.

Rhaid i unrhyw adborth a dderbynnir gan ddysgwyr:
- fod yn ffeithiol, ac yn seiliedig ar yr hyn a welwyd yn eu gwaith.
- osgoi cyfarwyddo dysgwyr ar sut i wella eu marc
- gael ei ddogfennu a'i ddarparu i'w gymedroli'n allanol os gofynnir am hynny.

Ni ddylai athrawon:
- ganiatáu sawl ailgyflwyniad ar sail mân newidiadau yn dilyn adborth
- caniatáu i ddysgwyr ychwanegu, newid, na dileu unrhyw waith ar ôl i'r ailgyflwyniad gael ei farcio.

Nid yw'n ofynnol i ddysgwyr gynhyrchu set hollol newydd o dystiolaeth ar gyfer ailgyflwyniad. Dylent ganolbwyntio ar y meysydd lle na wnaethant ennill y marc a ddymunwyd. O ganlyniad, efallai na fydd angen yr amser llawn a nodir yn y pecyn asesu, er y gallant ddefnyddio hyd at y dyraniad llawn os oes angen. Mae'r pecyn asesu yn nodi faint o amser yn fras y dylai dysgwyr ei dreulio yn cwblhau pob tasg. Pan fydd dysgwyr yn canolbwyntio ar dasgau penodol i'w hailgyflwyno, ni ddylai'r amser a ganiateir fod yn fwy na chyfanswm yr amser a awgrymir ar gyfer y tasgau hynny.

Nid oes angen creu taflen gyflwyno marciau ymgeisydd ar wahân ar gyfer ailgyflwyniad. Gellir diweddaru'r daflen wreiddiol gyda'r marciau diwygiedig a sylwadau ychwanegol. Dylai canolfannau gadw cofnodion mewnol o ailgyflwyniadau i ddarparu llwybr archwilio clir, a fydd yn ddefnyddiol os bydd ymholiadau'n codi. Dim ond y marciau terfynol a'r dystiolaeth sydd angen eu cyflwyno ar gyfer cymedroli allanol.

Unwaith y bydd marciau wedi'u cyflwyno i'w cymedroli, ni chaniateir ailgyflwyno'r un asesiad eto. Un cyfle sydd ar gael i ddysgwyr ailsefyll yr asesiad yng nghyfresi asesu'r dyfodol. Wrth ailsefyll asesiad, rhaid i ganolfannau sicrhau bod dysgwyr yn defnyddio briff yr asesiad a ryddhawyd ar gyfer y gyfres honno. (gweler Adran 5.4).

**Noder** – Ar gyfer Uned 1, sy'n cael ei hasesu gan CBAC, **ni ddylai** athrawon ganiatáu cyfle ychwanegol i ddysgwyr wella eu tystiolaeth cyn cyflwyno'r gwaith i CBAC i'w farcio. **Rhaid i athrawon ddilyn y cyfarwyddiadau sydd wedi'u cynnwys yn y pecyn asesu.**

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd. 2026

# 4 CAMYMDDWYN

Cyn dechrau'r cwrs, cyfrifoldeb athrawon yw rhoi gwybod i ymgeiswyr am reoliadau CBAC ynglŷn â chamymddwyn. Rhaid i ymgeiswyr beidio ag ymddwyn yn annheg mewn unrhyw ffordd wrth baratoi gwaith ar gyfer CBAC Sylfaen Lefel Mynediad/Lefel 1 Y Celfyddydau Mynegiannol.

Mae ein Canllaw i atal, adrodd am ac ymchwilio i gamymddwyn yn cynnwys gwybodaeth ynghylch camymddwyn.

Rhaid rhoi gwybod i CBAC ar unwaith am unrhyw achos o gamymddwyn posibl neu gamymddwyn gwirioneddol (camymddwyn@cbac.co.uk). Os bydd ymgeiswyr yn camymddwyn, mae'n bosibl y byddant yn cael eu cosbi neu eu diarddel o'r arholiadau.

Ym mhob achos o gamymddwyn, cynghorir canolfannau i ddilyn cyngor llyfryn y CGC Amau Camymddwyn: Polisïau a Gweithdrefnau.

DRAFFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

# 5 GWYBODAETH DECHNEGOL

## 5.1 Cofrestru

Cymhwyster unedol yw hwn. Caiff ymgeiswyr eu cofrestru ar gyfer pob uned ar wahân.

Bydd cyfleoedd asesu ar gael yn ystod cyfres yr haf tan ddiwedd oes y fanyleb hon.

Bydd Uned 1 ac Uned 2 ar gael yn Haf 2028 (a phob Haf wedi hynny). Bydd Uned 3 ar gael yn Haf 2029 (a phob Haf wedi hynny).

Rhaid cofrestru am unedau unigol drwy gyflwyno'r uned berthnasol sydd i'w gweld isod:

| | | Codau Cofrestru | |
|---|---|---|---|
| | | **Cyfrwng Saesneg** | **Cyfrwng Cymraeg** |
| **Uned 1** | | | |
| **Uned 2** | | | |
| **Uned 3** | | | |

## 5.2 Cofrestru ar gyfer y cymhwyster

Bydd y cymhwyster yn cael ei ddyfarnu am y tro cyntaf yn haf 2029.

Caiff ymgeiswyr eu cofrestru ar gyfer y cymhwyster drwy'r broses agregu (cyfnewid).

Nid yw'r broses agregu'n digwydd yn awtomatig; rhaid nodi'r cod perthnasol er mwyn agregu.

| | **Cyfrwng Saesneg** | **Cyfrwng Cymraeg** |
|---|---|---|
| **Cod cyfnewid** | | |

Mae rhifyn cyfredol ein dogfen Dulliau Cofrestru a Gwybodaeth am y Codau yn rhoi'r dulliau cofrestru diweddaraf.

## 5.3 Graddio, dyfarnu ac adrodd yn ôl

Mae cymhwyster CBAC Sylfaen Lefel Mynediad/Lefel 1 Y Celfyddydau Mynegiannol yn cael ei adrodd ar raddfa pedwar pwynt: Llwyddiant Mynediad 1, Llwyddiant Mynediad 2, Llwyddiant Mynediad 3 a Llwyddiant Lefel 1 (a Llwyddiant Lefel 1 yw'r radd uchaf). Os nad yw ymgeiswyr yn ennill y nifer gofynnol o farciau unffurf i ennill Llwyddiant Mynediad 1 yna cofnodir eu cyrhaeddiad fel U (annosbarthedig) ac ni fyddant yn derbyn tystysgrif.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd. 2026

Adroddir canlyniadau unedau unigol ar raddfa marciau unffurf (GMU) ac maent yn cyfateb i'r graddau canlynol:

| | **UCHAFSWM** | **Pwysoliad** | **GMU** | **Lefel 1** | **Mynediad 3** | **Mynediad 2** | **Mynediad 1** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Uned 1** | 25 | 25% | 50 | 40 | 30 | 20 | 10 |
| **Uned 2** | 25 | 25% | 50 | 40 | 30 | 20 | 10 |
| **Uned 3** | 40 | 50% | 100 | 80 | 60 | 40 | 20 |

Mae'r marciau unffurf a enillwyd am bob uned yn cael eu hadio at ei gilydd a bydd gradd y cymhwyster yn seiliedig ar y cyfanswm hwn.

| | **UCHAFSWM** | **Pwysoliad** | **GMU** | **Lefel 1** | **Mynediad 3** | **Mynediad 2** | **Mynediad 1** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dyfarniad Pwnc** | 90 | 100% | 200 | 160 | 120 | 80 | 40 |

## 5.4 Ailsefyll asesiadau

Gall ymgeiswyr ailsefyll Uned 1, yr asesiad wedi'i farcio gan CBAC, ddwywaith (tri chynnig i gyd). Defnyddir y sgôr marciau unffurf gwell o'r tri chynnig i gyfrifo'r radd derfynol gyffredinol.

Gall ymgeiswyr ailsefyll Uned 2 ac Uned 3, yr asesiad wedi'i farcio gan y ganolfan, unwaith (dau gynnig i gyd). Defnyddir y sgôr marciau unffurf gwell o'r ddau gynnig i gyfrifo'r radd derfynol gyffredinol.

Wrth ailsefyll asesiad, mae'n rhaid i'r ymgeisydd gyflwyno asesiad newydd, wedi'i gwblhau o fewn yr un lefelau rheolaeth. Ni chânt wella gwaith a gyflwynwyd yn flaenorol.

Os bydd ymgeisydd wedi'i gofrestru ar gyfer asesiad ond ei fod yn absennol (a), nid yw'r absenoldeb yn cyfrif fel ymgais.

Os cofnodir bod ymgeisydd wedi cael ‘0’ marc, yna tybir nad oedd y dystiolaeth a gynhyrchwyd i'w hasesu yn haeddu marciau; bydd hyn yn cyfrif fel ymgais.

Wrth ailsefyll asesiad, ar yr amod nad yw'r ymgeisydd wedi defnyddio mwy na'r nifer mwyaf o gynigion, bydd marciau o'r unedau eraill yn cael eu trosglwyddo.

Os bydd ymgeisydd yn mynd dros y nifer o gynigion ar gyfer unrhyw asesiad, yna bydd gofyn iddo ailwneud yr asesiad.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

## 5.5 Ailwneud y cymhwyster

Os bydd ymgeisydd yn cofrestru i wneud Uned 1, yr asesiad wedi'i farcio gan CBAC, am y pedwerydd tro, neu i wneud Uned 2 ac Uned 3, yr asesiad wedi'i farcio gan y ganolfan, am y trydydd tro, yna mae'n rhaid iddo ailgofrestru i wneud pob asesiad ac ailsefyll pob un.

Wrth ailwneud cymhwyster, gall ymgeisydd gael hyd at dri chynnig ar Uned 1, yr asesiad wedi'i farcio gan CBAC, a hyd at ddau gynnig ar Uned 2 ac Uned 3, yr asesiad wedi'i farcio gan y ganolfan. Fodd bynnag, ni ellir defnyddio canlyniadau o unedau a safwyd cyn ailsefyll wrth agregu'r radd (graddau) newydd.

DRAFFT

© WJEC CBAC Ltd. 2026

# Atodiad A: Enghreifftiau o arddulliau/genres a thechnegau sylfaenol ar gyfer pob ffurf gelf

**Celf a Dylunio**

- arddull/genre'r gwaith, er enghraifft:
  - realaeth
  - haniaethol
  - digidol
  - cyfoes.

- technegau sylfaenol y gwaith, er enghraifft:
  - defnydd o liw
  - llinell
  - siâp
  - gweadedd
  - ffurf
  - cyfansoddiad.

**Dawns**

- arddull/genre'r gwaith, er enghraifft:
  - cyfoes
  - jazz
  - stryd
  - bale.

- technegau sylfaenol y gwaith, er enghraifft:
  - defnydd o symudiadau
  - gofod
  - dynameg
  - amseru
  - perthnasoedd.

**Drama (perfformio)**

- arddull/genre'r gwaith, er enghraifft:
  - realaeth
  - theatr gerdd
  - naturoliaeth
  - theatr gorfforol
  - comedi.

- technegau sylfaenol y gwaith, er enghraifft:
  - defnydd o sgiliau lleisiol
  - sgiliau corfforol
  - symudiadau
  - cymeriadu
  - llwyfannu.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

**Drama (Dylunio goleuo)**

- arddull/genre'r gwaith, er enghraifft:
  - realaeth
  - theatr gerdd
  - naturoliaeth
  - theatr gorfforol
  - comedi.

- technegau sylfaenol y gwaith, er enghraifft:
  - tanbeidrwydd
  - blacowt
  - pylu/codi goleuadau
  - golau cylch
  - llifolau.

**Drama (Dylunio sain)**

- arddull/genre'r gwaith, er enghraifft:
  - realaeth
  - theatr gerdd
  - naturoliaeth
  - theatr gorfforol
  - comedi.

- technegau sylfaenol y gwaith, er enghraifft:
  - cerddoriaeth
  - effeithiau sain
  - seiniau byw
  - seiniau wedi'u recordio
  - lefel sain
  - datsain/atsain.

**Drama (Dylunio set)**

- arddull/genre'r gwaith, er enghraifft:
  - realaeth
  - theatr gerdd
  - naturoliaeth
  - theatr gorfforol
  - comedi.

- technegau sylfaenol y gwaith, er enghraifft:
  - mynd ar/oddi ar y llwyfan
  - llinellau gweld
  - chwith llwyfan/de llwyfan
  - cefnlen
  - propiau
  - dodrefn.

DRAFFT

© WJEC CBAC Ltd. 2026

**Drama (Dylunio gwisgoedd – gan gynnwys gwallt a cholur)**

- arddull/genre'r gwaith, er enghraifft:
  - realaeth
  - theatr gerdd
  - naturoliaeth
  - theatr gorfforol
  - comedi.

- technegau sylfaenol y gwaith, er enghraifft:
  - cyfwisgoedd
  - dilladau
  - steiliau gwallt
  - hylinio
  - arddull cyfnod.

**Cerddoriaeth**

- arddull/genre'r gwaith, er enghraifft:
  - clasurol
  - pop
  - cerddoriaeth ffilm.

- technegau sylfaenol y gwaith, er enghraifft:
  - traw
  - rhythm
  - tempo
  - gwead
  - dynameg.

**Ffilm a Chyfryngau Digidol**

- arddull/genre'r gwaith, er enghraifft:
  - arswyd
  - rhaglen ddogfen
  - realiti
  - comedi
  - ffantasi
  - rhaghysbyseb.

- technegau sylfaenol y gwaith, er enghraifft:
  - onglau'r camera
  - mathau o saethiadau
  - golygu
  - dewisiadau sain.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

# Atodiad B: Cyfleoedd i ymgorffori elfennau o'r Cwricwlwm i Gymru

| Llinynnau Cwricwlwm i Gymru | Uned 1 | Uned 2 | Uned 3 |
|---|---|---|---|
| Themâu Trawsbynciol | | | |
| Cyd-destunau Lleol, Cenedlaethol a Rhyngwladol | ✓ | ✓ | ✓ |
| Agwedd Cynaliadwyedd Cyd-destunau Lleol, Cenedlaethol a Rhyngwladol | ✓ | ✓ | ✓ |
| Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb | ✓ | ✓ | ✓ |
| Amrywiaeth | ✓ | ✓ | ✓ |
| Addysg Hawliau Dynol | ✓ | ✓ | ✓ |
| Profiadau sy'n Gysylltiedig â Gyrfaoedd a Gwaith | | ✓ | ✓ |
| Sgiliau Trawsgwricwlaidd – Llythrennedd | | | |
| Gwrando | ✓ | ✓ | ✓ |
| Darllen | ✓ | ✓ | ✓ |
| Siarad | ✓ | ✓ | ✓ |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd. 2026

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ysgrifennu | ✓ | ✓ | ✓ |
| Sgiliau Trawsgwricwlaidd – Rhifedd | | | |
| Datblygu Hyfedredd Mathemategol | | ✓ | |
| Mae deall y system rifau yn ein helpu ni i gynrychioli a chymharu'r perthnasoedd rhwng rhifau a meintiau | | | ✓ |
| Mae dysgu am geometreg yn ein helpu ni i ddeall siâp, gofod a safle, ac mae dysgu am fesur yn ein helpu i feintioli yn y byd go iawn | | ✓ | ✓ |
| Mae dysgu bod ystadegau yn cynrychioli data a bod tebygolrwydd yn modelu siawns yn ein helpu ni i wneud casgliadau a phenderfyniadau gwybodus | | | |
| Cymhwysedd Digidol | | | |
| Dinasyddiaeth | ✓ | | |
| Rhyngweithio a chydweithio | | ✓ | ✓ |
| Cynhyrchu | | ✓ | |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

| | | | |
|---|---|---|---|
| Data a Meddwl Cyfrifiannol | | | |
| Sgiliau Cyfannol | | | |
| Creadigrwydd ac Arloesi | | ✓ | ✓ |
| Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cynllunio a Threfnu | ✓ | ✓ | ✓ |
| Effeithiolrwydd Personol | ✓ | ✓ | ✓ |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd. 2026